




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Prentis Profiad y Claf (Gwasanaethau i Gwsmeriaid)

Pecyn Gwybodaeth 2021

Beth yw Prentis Profiad y Claf?

- ✓ A ydych am helpu i wella profiad y claf?
- ✓ A ydych yn barod am her?
- ✓ A ydych am fod mewn swydd lle byddwch mewn cysylltiad â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr?
- ✓ A fydddech yn hoffi dysgu ac ennill?
- ✓ A ydych yn hoffi darparu gwasanaeth cwsmeriaid da?
- ✓ Os ydych wedi ateb yn gadarnhaol i bob un o'r cwestiynau uchod, yna gallai'r rôl hon fod yn addas ar eich cyfer chi!

Mae'r Tîm Profiad y Claf yn cefnogi cleifion trwy ateb eu hymholiadau ynghylch gofal iechyd, cynnig cyngor, a'u cyfeirio at wasanaethau ac asiantaethau priodol. Mae gwranddo ar ein cleifion yn hanfodol er mwyn gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, ac mae'r tîm yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gofnodi llais ein cleifion. Ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl ac, o ganlyniad, rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n llawn cyffro ynghylch defnyddio syniadau arloesol sy'n ymwneud â'r datblygiadau technolegol diweddaraf. Byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus groesawu holl werthoedd y Bwrdd Iechyd yn frwd, gan y bydd hyn wrth wraidd popeth a wnânt.



Mae Rhaglen Prentisiaeth Profiad y Claf yn gyfle cyffrous a fydd yn eich galluogi i hyfforddi i ddod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm Profiad y Claf trwy ddysgu yn y gwaith. Byddwch yn canolbwyntio ar ddarparu safon uchel o ran gwasanaeth cwsmeriaid. Byddwch yn dechrau trwy gwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid (lefel 2), ac yn symud ymlaen i Prentisiaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid (lefel 3) cyn ymgymryd â rôl Swyddog Profiad y Claf (Gwasanaeth Cwsmeriaid).

Ym mha ffordd y mae'r Rhaglen Profiad y Claf yn wahanol i raglenni prentisiaeth eraill?

Mae Rhaglen Prentisiaeth Profiad y Claf yn cyfuno dwy raglen ddysgu yn un, sy'n dangos ein bod yn ymrwymedig i ddarparu llwybr uniongyrchol i ddod yn Swyddog Profiad y Claf. Mae'n eich galluogi i ennill amrywiaeth eang o brofiadau wrth weithio ym maes iechyd. Byddwch yn ennill arian trwy gydol yr amser y byddwch yn dysgu.

Amlinelliad o'r Rhaglen Prentisiaeth Profiad y Claf				
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid	Medi 2021			Isafswm Cyflog Prentisiaeth Cenedlaethol
	Medi 2022			
Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid		Medi 2022		£14,799 y flwyddyn, yn cynyddu i £15,865 ar ôl chwe mis
		Ebrill 2024		
Swyddog Profiad y Claf			Ebrill 2024	Band 3 £19,737

*Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu cymwysterau yn seiliedig ar newidiadau i gymwysterau, gofynion y sector neu gyllid.

*Cyfraddau cyflog yn gywir ym mis Rhagfyr 2020.

Beth y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Profiad y Claf yn ei olygu?

- Cwrs cynefino cynhwysfawr, a fydd yn eich paratoi ar gyfer lleoliadau gwaith yn y Bwrdd Iechyd;
- Byddwch yn cael hyfforddiant 'y tu allan i'r swydd' er mwyn datblygu eich dysgu;
- Byddwch yn cael cymorth gan fentor o'r coleg;
- Byddwch yn mynd i weithdai, lle bydd gennych gyfle i drafod a rhannu syniadau;
- Byddwch yn gweithio tuag at gael cymwysterau galwedigaethol, gan ddatblygu trwy'r lefelau wrth i chi feithrin hyder a phrofiad;
- Byddwch yn cael cyfle i gysgododi aelod o'r Tîm Profiad y Claf yn rhan o'r broses gynefino;

- Bydd mentor yn y gweithle yn cael ei ddynodi i chi, a fydd yn eich cefnogi a'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau trwy gydol y rhaglen.

Beth y byddwch y ei wneud yn eich rôl?

Byddwch yn rhyngweithio nid yn unig â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ond hefyd ag amrywiaeth o adrannau yn y Bwrdd Iechyd.

O dan oruchwyliaeth, ac ar ôl cael yr hyfforddiant priodol, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu fel cyswllt ar gyfer cleifion, gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) a Swyddogion Cyswllt Teulu;
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau hyrwyddo, gan gynrychioli'r Tîm Profiad y Claf;
- Ymgysylltu'n weithredol â chleifion ym mhob ardal;
- Gweithio'n agos gyda staff i ddarparu cymorth gweinyddol parhaus i'r adran;
- Cefnogi unrhyw fetrau a gyflawnir gan y tîm;
- Helpu i lunio a chynnal adroddiadau a thaenlenni trwy ddefnyddio amrywiaeth o becynnau cyfrifiadurol, gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint;
- Gwneud unrhyw waith llungopïo, sganio, ffeilio a laminiadu, fel sy'n ofynnol;
- Sicrhau bod y cleifion yn ffocws i bopeth a wnewch;
- Delio ag ymholiadau o ddydd i ddydd yn yr adran, sy'n golygu cyfathrebu ac ymateb i ymholiadau, a chysylltu ag amrywiol unigolion o adrannau eraill, sefydliadau allanol a rhanddeiliaid;
- Cynorthwyo i gasglu a dadansoddi data, ar gais;
- Cynorthwyo i drefnu digwyddiadau Tîm Profiad y Claf, gan sicrhau bod yr adnoddau ar gael.

Trosolwg o'r Rhaglen

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 (12 mis)

Bydd unigolion yn cwblhau'r canlynol:

- Cynefino ar gyfer Prentisiaid
- Cynefino Corfforaethol
- Cynefino Tîm
- Hyfforddiant ar System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)
- Hyfforddiant ar System Adrodd am Ddigwyddiadau Datix
- Adolygiad o gynnydd pob 61 diwrnod
- Pasbort Codi a Chario
- Modiwlau E-ddysgu
- Cymraeg yn y Gweithle
- Sgiliau Astudio
- Cymorth gydag unrhyw anghenion dysgu
- Cymorth mentor a mynediad at swyddogion lles (sy'n cynnwys tai, cyllid, llesiant)

Mae prentisiaeth yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- Lefel 2 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cymhwysio Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Llythrennedd Digidol

Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid (18 mis)

Bydd unigolion yn cwblhau'r canlynol:

- Diploma Lefel 3 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cymhwysio Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Llythrennedd Digidol

Beth yw'r gofynion mynediad?

- Rhaid i chi fod yn unigolyn caredig a gofalgar sy'n frwd dros helpu pobl eraill
- Rhaid i chi fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ym mis Medi 2021
- Rhaid i chi fod wedi byw yn y Deyrnas Unedig/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am y tair blynedd ddiwethaf
- Rhaid i chi fod yn barod i weithio'n galed
- Safon dda o ran llythrennedd a rhifedd
- Profiad o becynnau TG (prosesu geiriau, taenlenni, e-bost a rhaglenni cyflwyniad)
- Ni ddylech feddu ar gymhwyster Gwasanaeth Cwsmeriaid Lefel 2 neu uwch
- Ni ddylech fod mewn unrhyw addysg ffurfiol a ariennir gan y llywodraeth ar adeg dechrau'r Rhaglen Prentisiaeth Profiad y Claf

Sut yr wyf yn gwneud cais?

Rydym yn bwriadu recriwtio tri Prentis Profiad y Claf, wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Sir Benfro, ac yn Sir Gaerfyrddin.

Os hoffech wneud cais am y cyfle i fod yn Prentis Gofal Iechyd, ewch i wefan NHS Jobs neu i wefan Hywel Dda:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/75202>

Sicrhewch nad ydych yn methu'r dyddiad cau, a darllenwch yr hysbyseb yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais. Byddwn yn derbyn ceisiadau o 9 Ebrill ymlaen, a bydd y dyddiad cau ar 25 Ebrill 2021.

Pob lwc!

Gofalwch eich bod yn gwneud cais am y swydd wag yn yr ardal yr ydych am weithio ynddi.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, estynnir gwahoddiad i'r rheiny a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn llwyddiannus fynd i ddiwrnod asesu. Bydd hwn yn gyfle i chi gwrdd â ni, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am y rhaglen a rôl y swydd. Cynhelir hwn ar 27 Mai 2021.

Pryd y byddwch yn cael adborth?

Bydd pawb a fydd yn bresennol ar y diwrnod asesu yn cael gwybod gan Dîm Profiad y Claf a fu'n llwyddiannus ai peidio. Bydd hyn yn digwydd ar 04 Mehefin 2021. Os byddwch yn cael eich recriwtio'n llwyddiannus, byddwch yn dechrau ar eich cyflogaeth fel Prentis Profiad y Claf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Medi 2021.

Pa ddogfennau y bydd angen i chi eu darparu cyn y gallwch ddechrau?

I sicrhau ein bod yn gallu cyflawni proses recriwtio effeithlon a diogel, gofynnir i chi ddarparu'r dogfennau canlynol (darllenwch hwn yn ofalus):

- Prawf o fod â hawl i weithio yn y DU
- Prawf o hunaniaeth
- Tystiolaeth o archwiliad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Dyddiadau Allweddol

Y swydd wag yn fyw: 09 Ebrill 2021
Dyddiad cau: 25 Ebrill 2021
Dyddiad llunio'r rhestr fer: 25 Ebrill 2021
Diwrnod dethol: 27 Mai 2021
Adborth: 04 Mehefin 2021
Dyddiad Dechrau: 22 Medi 2021

Pam y dylech weithio i ni?

Pam y dylech wneud cais am brentisiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?
Dyma rai o'r rhesymau dros wneud hynny:

- Mae prentisiaethau'n ffordd wych o ddechrau ar yrfa yn y GIG;
- Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol â chyflogaeth sy'n talu ('ennill wrth ddysgu');
- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â staff profiadol a fydd yn eich cefnogi ac yn eich helpu i feithrin y sgiliau ymarferol y mae arnoch eu hangen;
- Byddwch yn ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, a hynny heb dalu ffioedd dysgu;
- Byddwch yn cael 27 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus ychwanegol;
- Bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu'n unol â'ch gwasanaeth;
- Mae'n brofiad gwych – yn gweithio'n rhan o dîm, ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

**Buddsoddwch yn eich dyfodol. Dewch i ymuno â theulu Hywel Dda.
Nid oes yr un lle gwell i #HyfforddiGweithioByw**

Beth y dylwn ei wneud os bydd gennyf gwestiwn?

Os hoffech wybod rhagor am y rôl hon, cysylltwch ag Emma Haycock yn:

HDD.PALSTeam@wales.nhs.uk

Os oes gennych ymholiadau ynghylch cymwysterau neu brentisiaeth, cysylltwch â'r Academi Brentisiaeth yn:

apprenticeship.academy@wales.nhs.uk neu ffoniwch 07971 480755